

GUIDE
DOGS



Cymru

Modiwl 2 Taflen Adnoddau

Camau hyfforddi ci tywys



Torrwch y cardiau gweithgaredd allan sydd ar dudalennau 4 a 5 a'u cymysgu. Gofynnwch i wyth o blant ddod ymlaen er mwyn darllen cerdyn allan yn uchel. Anogwch y grŵp o wyth i roi eu hunain yn nhrefn llinell amser ci tywys o'i enedigaeth nes iddo ddod yn gi tywys. Gall y grŵp cyfan/dosbarth helpu yn ogystal.

Fel yr ewch chi drwy bob cerdyn bydd yna gwestiynau ac atebion ychwanegol ar gael yn y fersiwn ar gyfer yr athro/arweinydd i'w gofyn i'r grŵp/dosbarth cyfan.

Fersiwn yr athro / arweinydd â nodiadau a chwestiynau

Cyflwyniad i'r sesiwn

Mae gan Guide Dogs/Cŵn Tywys enw da yn fyd-eang fel bridiwr cŵn gweithiol.

Golyga hyn fod y Gymdeithas Cŵn Tywys ar gyfer y Deillion yn sicrhau fod mamau a thadau'r holl gŵn tywys yn gŵn hapus ac iach. Darllenwch eich cardiau'n uchel, yna rhowch eich hunain yn y drefn gywir o ddechrau bywyd ci tywys i'r cyfnod y daw'n gi tywys.

Cerdyn – Mae torllwyth o gŵn bach yn cael eu geni. Mae pob torllwyth yn cael eu henwi ar ôl llythyren yn yr wyddor. Yr unig llythyren na fydd yn cael ei defnyddio yw'r llythyren X.

C Allwch chi feddwl am unrhyw enwau i gŵn sy'n dechrau â'r llythyren A?

A fel - Adam, Amy, Albert. Mae rhai o'r cŵn bach hyd yn oed yn fwy arbennig ac yn cael eu dewis i fod yn gŵn bach, nodedig neu'n cael eu henwi ar ôl aelod o'r cyhoedd sydd wedi codi arian er mwyn enw'r ci bach.

Cerdyn – Yn 6 wythnos oed, maen nhw'n derbyn gwiriad iechyd a brechiadau cyn y bydd pob ci yn mynd at Gerddwr Ci Bach Gwirfoddol. Maent yn dysgu am y byd; yr hyn sydd i'w weld, ei arogl a synau fel ffyrdd prysur a mynd ar fysiau a threnau.

C Pam y tybiwch fod angen iddynt ddysgu am ffyrdd, bysiau a threnau?

A Dyma'r manau y byddant yn mynd pan fyddant yn tywys eu perchennog na fydd, o bosib yn gallu gweld. Bydd rhaid iddynt fod yn llonydd a pheidio bod ag ofn pan fyddant yn mynd gyda'r perchennog.

Cerdyn – Maent yn mynd i ddsbarth cŵn bach ac yn cael eu dysgu i gerdded ymlaen, ar dennyn gan ddysgu gorchmynion fel eistedd, aros, lawr a dere/tyrd.

Cerdyn – Maent yn awr yn gŵn ac maent yn dweud hwyl fawr i'w cerddwyr cŵn bach gwirfoddol ac yn mynd i'r ysgol hyfforddi. Yn yr ysgol, maent yn gwisgo harnais hyfforddi, frown.

C Pam mor hen tybiwch ydynt pan fyddant yn mynd i'r ysgol?

A Maen nhw oddeutu blwydd oed.

Cerdyn – Yn yr ysgol, maent yn dysgu i gerdded mewn llinell syth oni bai fod yna rwystr, ac yna'n aros wrth ymyl cwrbiau ac aros am y gorchmyn i groesi neu droi i'r chwith neu i'r dde.

C Pam tybiwch eu bod yn dysgu stopio wrth ymyl cwrbiau nes eu bod yn clywed gorchmyn?

A Fel y gall y perchennog ddweud wrth y ci pryd mae am groesi neu i ba gyfeiriad y mae am droi (yr unigolyn sy'n penderfynu pa ffordd i fynd, nid y ci.)

Cerdyn – Nesaf, mae'r cŵn yn cael eu paru â'r perchennog cywir. Mae cyflymder cerdded, uchder, golwg yr unigolyn a'i fywyd dyddiol i gyd yn cael eu gwirio er mwyn eu paru'n gywir.

C Beth mae ci tywys yn ei wneud?

A Mae'n helpu ei berchennog, a allai fod yn ddall, neu â bach iawn o olwg i fynd ar deithiau drwy ei dywys o amgylch rhwystrau a phobl eraill (mae'r ci yn gwneud yn siŵr nad yw'r person yn bwrw i mewn i unrhyw beth.)

Cerdyn – Wedi iddynt gael eu paru, bydd y perchennog a'r ci tywys yn hyfforddi gyda'i gilydd am 4 wythnos. Byddant yn hyfforddi ar y llwybrau y bydd yr unigolyn angen eu hadnabod er mwyn mynd o le i le, fel siopau, y gwaith ac adref.

C Beth ddylech ei wneud os byddwch yn gweld person â chi tywys?

A Ceisiwch anwybyddu'r ci pan fo'n gweithio, achos gallai siarad ag ef, ei gyffwrdd neu wneud synau dynnu ei sylw oddi wrth beth mae'n ei wneud a gallai hynny fod yn beryglus.

Cerdyn – Os yw'r hyfforddiant yn llwyddiannus, mae perchennog y ci yn cyfrannu 50c a bydd y ci tywys yn derbyn harnais wen a bydd eu partneriaeth oes yn dechrau.

C Pam fod pobl yn talu 50c

A Dylai unrhyw un sydd ag angen ci tywys fedru ei fforddio. Mae'r 50c yn talu am drosglwyddiad cyfreithiol y ci i'r perchennog.

Mae'n costio 55 mil o bunnoedd i gadw pob ci tywys yn ystod ei oes ond mae'r costau'n cael eu hariannu gan arian sy'n cael ei godi'n bennaf gan y cyhoedd.

Camau hyfforddi ci tywys

Mae torllwyth o gŵn tywys, ifanc yn cael eu geni. Mae pob torllwyth yn cael eu henwi ar ôl llythyren yn yr wyddor.



Yn 6 wythnos oed, mae pob un ohonynt yn derbyn gwiriad iechyd a brechiadau cyn y bydd pob un ohonynt yn mynd i fyw at Gerddwr Ci Bach. Maent yn dysgu am y byd, yr hyn sydd i'w weld, ei arogl a'i glywed fel ffyrdd prysur a sut i fynd ar fysiau a threnau.



Maent yn mynychu dosbarth ar gyfer cŵn bach ac yn cael eu dysgu i gerdded ymlaen, ar dennyn yn ogystal â geiriau fel i eistedd, aros, lawr a dere/tyrd.



Maent yn awr yn gŵn ac yn dweud hwyl fawr wrth eu cerddwyr cŵn bach, gwirfoddol ac yn mynychu ysgol hyfforddi. Yn yr ysgol, maent yn gwisgo harnais hyfforddi, frown.



Yn yr ysgol, maent yn dysgu cerdded mewn llinell syth, oni bai fod yna rwystr. Maent yn dysgu i aros yn ymyl cwrbiau ac aros am y gorchymyn i groesi a throi naill ai i'r dde neu i'r chwith.



Nesaf, mae'r cŵn yn cael eu paru â'r perchennog cywir. Mae cyflymder cerdded, uchder, golwg a bywyd dyddiol yr unigolyn yn cael eu gwirio er mwyn eu paru'n dda.



Wedi iddynt gael eu paru, bydd y perchennog a'r ci tywys yn hyfforddi gyda'i gilydd am 4 wythnos. Byddant yn hyfforddi ar hyd y llwybrau y bydd angen i'r perchennog eu hadnabod er mwyn cyrraedd manau fel siopau, y gwaith ac adref.



Os fydd yr hyfforddiant yn llwyddiannus, bydd y perchennog yn cyfrannu 50c a bydd y ci tywys yn derbyn harnais wen. Bydd y bartneriaeth oes yn dechrau.



Taflen Adnoddau


Cais i fod yn gi tywys

Dewiswch eich brîd o gi:

Rydw i yn

Eich enw

Disgrifiwch y nodweddion sy'n eich gwneud yn gi tywys da:



Taflen Adnoddau

Ein Bridiau

Rydym yn hyfforddi gwahanol fridiau i fod yn gŵn tywys. Yn 2016, roedd ein stoc cŵn yn cynnwys:



50%

Adargi Euraidd cymysg (wedi croesi â Labrador neu Gi Bugail Almaenig)



Labrador

34%



10%

Adargi Euraidd



Ci Bugail Almaenig

4%



2%

Arall - Pwdl neu retriever cot cyrliog cymysg

